

# Darganfod Y Waun a Phantymwyn

















# Croeso i'r Waun a Phantymwyn

Dau bentref ar gyrion Dyffryn yr Alun yw'r rhain, ychydig o filltiroedd i'r gorllewin o'r Wyddgrug. Y calchfaen o dan y ddaear sy'n gyfrifol am lawer o'u hanes a'u nodweddion.

Effaith y greigwely calchfaen yw tirwedd Dyffryn yr Alun: y creigiau, yr ogofeydd a'r dolydd blodeuog, a hithau'r Afon Alun sy'n diflannu bob haf.

Bu'r gwythiennau oedd unwaith yn gyfoethog o fwynau, o blwm yn arbennig ond sbâr ac arian hefyd, yn denu peirianwyr mwyngloddio a mentrwyr busnes oedd yn gobeithio gwneud eu ffortiwn o'r mwynau gwerthfawr.

Ceir y cofnod cyntaf o 'Gwernaffield' (sef enw arall y pentref) yn y 15fed ganrif. Tybir ei fod yn gymysgedd o'r gair Cymraeg 'gwern', sef tir gwlyb o goed gwern, a'r Hen Saesneg 'feld' sef tir âr, ac mae'n adlewyrchu lleoliad y pentref gwledig ar y ffin. Ceir y cofnod cyntaf o 'y Waun' yn 1600. Dechreuodd y ddau bentref dyfu ar ddiwedd y 18fed ganrif, yn gartref i'r mwynwyr a ddaeth yma i weithio. Yn amlwg, mae'r enw Pantymwyn yn deillio o hanes mwyngloddio.



Roedd y calchfaen ei hunan yn werthfawr hefyd, ac roedd nifer o chwareli calch bach yn cael eu gweithio at ddefnydd yr ardalwyr lleol. Y calchfaen lleol hwn a ddefnyddiwyd i godi'r mwyafrif o hen adeiladau'r pentref, ac mae'n dal i gael ei gloddio ar raddfa fasnachol yn Chwarel Cefn Mawr.

Yn y 1869au, dechreuodd y gwasanaeth rheilffordd ym mhentref cyfagos Rhydymwyn, ac yn y 1920au dechreuodd cwmni Crosville redeg bysiau o Birkenhead i Bantymwyn a Loggerheads. Oherwydd hyn roedd yr ardal yn hygyrch i ymwelwyr o Sir Gaer ac o Lannau Merswy a gafodd eu denu gan yr golygfeydd calchfaen. Arhosodd rhai pobl am wyliau gan wersylla ar ffermydd, rhentu ystafelloedd oddi wrth y bobl leol, neu aros mewn cytiau pren a hen garafannau sipsiwn.

Cynyddodd poblogrwydd y pentrefi yn ystod yr ugeinfed ganrif, codwyd cartrefi newydd a newidiwyd rhai o'r hen gytiau gwyliau pren yn dai parhaol.

Oherwydd dyfodiad twristiaid yn yr 20fed ganrif fe ddatblygodd y Waun a Phantymwyn o'u gwreiddiau mewn amaethyddu a mwyngloddio i'r cymunedau llewyrchus sydd yma heddiw.

Crëwyd y llyfryn hwn gan y gymuned leol i ddathlu treftadaeth ddiwylliannol a naturiol gyfoethog yr ardal. Diolch i'r rhai a ddarparodd y ffotograffau ac a rannodd eu hatgofion a'u gwybodaeth.
Gellir llwytho'r llyfryn hwn i lawr o www.cadwynclwyd.co.uk neu www.siryfflint.gov.uk/twristiaeth.

**Ysgrifennu ac Ymchwil:** Lorna Jenner
**Dylunio:** William Smuts
**Hen ffotograffau:** Bobby Ashworth, Brian Bennett, Martin Bishop, Carole Bowen, Joyce a Irene Davies, Peter Dodd, Dora Evans, Major Basil Heaton, Jan Hodgson, Judith Jones, A Matthias, Clwb Golff yr Wyddgrug, Arthur Orme, Derek Parsons, Mair Rich, Blythe Richards, Morfudd Shawcross, Hilary Sweetman, George Tattum, Mona Williams
**Ffotograffiaeth bywyd gwyllt:** Simon Booth a Mick Brummage
**Ffotograffau eraill:** Anna Booth, Mick Brummage, Cris Ebbs, Lorna Jenner, Tim Salter
**Argraffu:** Design & Print

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency
AHNE Bryniau Clwyd
Clwydian Range AONB
Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council
Sir y Fflint Mewn Partneriaeth
Flintshire in Partnership
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Drwy'r Oesoedd
























***429*** *Buddugoliaeth y Celtiaid Cristnogol dros y Pictiaid a'r Sgotiaid ar Faes Garmon. Bloeddiodd y lluoedd Cristnogol 'Haleliwia ' cyn y frwydr gan godi ofn ar y gelynion a'u gorfodi i ddianc mewn braw.*

***1477*** *Cofnod cyntaf yr enw Gwernaffield.*

***1706*** *Arglwyddi'r Wyddgrug yn cyhoeddi les i fwyngloddio rhan o'r ardal.*

***1736*** *Codi cofeb Haleliwia ar Faes Garmon i gofio'r frwydr.*

***1824*** *Agor y sianel (lît) o Loggerheads i Ryd-y-mwyn i ddarparu ynni dŵr ar gyfer mwyngloddio plwm.*

***1838*** *Agor Ysgol Eglwys ac Ysgol y Wladwriaeth y Waun.*

***1845*** *Uno nifer o'r mwyngloddiau lleol o dan 'Mold Mines' a chael eu gweithio'n llwyddiannus o dan John Taylor.*

***1871*** *Ail adeiladu Eglwys y Waun.*

***1899*** *Y cyfeiriad cyntaf at berfformiad gan fand y Waun.*

***1926*** *Cwmni Crosville yn dechrau rhedeg bysiau'n rheolaidd o Birkenhead i Bantymwyn.*

***1926-1960*** *Nifer cynyddol o ymwelwyr dydd a phobl ar eu gwyliau'n ymweld â'r ardal.*

***1939*** *Lletya faciwîs ym Mhantymwyn a'r Waun.*

***1948*** *Twnnel Draenio'r Milwr yn cyrraedd yr Hand Inn, gan groesdorri gwythienni plwm y Waun.*

***1948*** *Agor Neuadd Bentref Pantymwyn.*


***1948-57*** *Twnnel Milwr yn cael ei ehangu hyd at Cadole, gan fynd o dan Bantybuarth.*

***1973*** *Ysgol y Waun yn symud i adeiladau newydd, Ysgol y Waen.*

***2007*** *Ffurfio Cyfeillion Coed Dyffryn yr Alun.*



# Cloddio am Blwm



*Abseilio yn Nhwll y Cythraul*

Anodd credu bod yr ardal wledig hon yn ganolfan diwydiant yn ystod yr 18fed a'r 19eg ganrif. Tybir bod y Rhufeiniad wedi bod yn cloddio'r gwythiennau plwm oedd ar yr wyneb ar raddfa fechan, ond pan ddechreuodd prisiau plwm godi yn y 1660au fe ddechreuodd y tirfeddianwyr lleol gymryd diddordeb. Ar ôl gwelliannau technolegol y chwyldro diwydiannol a'r gofyn cynyddol am blwm i adeiladu ac i'r fyddin, fe gynyddodd y diwydiant mwyngloddio'n raddol.

Y ddwy wythïen blwm bwysicaf yn yr ardal yw gwythïen Pantymwyn sy'n rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin o lannau dwyreiniol yr Afon Alun a heibio i Dafarn y Crown Pantymwyn; a gwythïen Pantybuarth sy'n rhedeg yn gyfochrog â hi ar hyd ffin ddeheuol y cwrs golff presennol at y groesffordd yn ymyl Pantybuarth.




Pen-y-fron, hen dŷ capten y mwynglawdd

Rhwng 1823 a 1845 bu'r peiriannydd enwog John Taylor, a adeiladodd Plas Coed Du yn gweithio nifer o'r mwyngloddiau lleol a elwir yn '*the Mold Mines*'. Buddsoddodd lawer iawn o arian gan adeiladu nifer o sianeli dŵr a elwir yn 'lît' i greu pŵer i'r olwynion dŵr oedd yn pwmpio dŵr allan o'r mwyngloddiau. Mae'r Llwybr Lît enwog yn dilyn trywydd un o'r sianelau hyn gan redeg tua'r gogledd o Loggerheads am dair milltir. Llwyddodd buddsoddiad Taylor ac fe ffynnodd ac ymestynnodd y mwyngloddiau gan gynhyrchu dros 7000 tunnell o fwyn plwm rhwng 1825 a 1845.

Mae Twll-y-cythraul yn lle hardd ac enwog ar Lwybr y Lît, ac yn ganlyniad i gloddio'r 'llinyn' llydan o wythïen Pantymwyn oedd yn cynnwys sbâr gwyn. Roedd cloddfa Cefn Bychan oedd ar ben gorllewinol gwythïen Pantybuarth yn llwyddiannus dros ben ar ganol y 18fed ganrif pan alwyd yn '*The Great Lead Work*'.


Ond, er yr holl hanesion am lwyddiant, hapfasnachol oedd y mwyafrif o'r gweithfeydd ac ychydig iawn o elw ddaeth o'r buddsoddi. Roedd gwythïen Bwlch-y-ddaufryn yn rhedeg tua'r dwyrain o'r cwrs golff ac i Wernaffield. Yn ôl The Mining Journal yn 1860, ni ddaeth fawr o elw o'r cloddio.

> *"Seldom this mine produced a bunch of ore that would pay for finding the next."*
>
> Dyfyniad o The Mining Journal







## Gwaith caled

Roedd y gweithwyr plwm yn gweithio o dan amodau oer a gwlyb. Weithiau, roedd rhaid iddyn nhw weithio mewn twneli cyfyng ac weithiau roedden nhw'n gorfod sefyll mewn lle simsan uwchben ceudwll. Roedd damweiniau'n digwydd yn weddol aml, a marwolaethau hefyd ambell waith.

Yn rhai o'r mwyngloddiau roedd diffyg aer yn achosi amodau gwaith gwael dros ben. Oherwydd lefelau uchel y carbon deuocsid a'r prinder ocsigen, roedd rhaid i'r gweithwyr plwm frwydro am eu gwynt, eu hwynebau'n troi'n goch. Yr enw ar y cyflwr oedd 'damps'.

> *"An inquest, conducted by WM Davies, County Coroner, was held at the Hand Inn, Gwernaffield, on the 21st inst, on the body of WM Rees a miner, 35 yrs of age, who was killed by falling down a portion of the shaft of the True Blue Mine. He had fallen 24 ft down a ladder to the bottom of the shaft as an iron step of the ladder was loose. A verdict of accidental death was returned."*
>
> Newyddion papur newydd mis Hydref Oct 31 1879

Roedd y gwenwyn plwm, neu'r 'bellan', yn gyffredin hefyd. Y symptomau oedd rhwymedd a'r cramp, chwydu, dim archwaeth at fwyd, colli pwysau, cyhyrau gwan, a chur pen. Nid oedd unrhyw beth a allai wella'r cyflwr, ond roedd y mwynwyr yn ceisio lleihau'r symptomau drwy fwyta bara wedi'i ddipio mewn olew melys a pheidio yfed alcohol.

## Trafferthion dŵr



Roedd dŵr yn y mwyngloddiau bob amser yn broblem gan gyfyngu ar y mynediad i'r gwythiennau dyfnach gan olygu bod rhaid i nifer o'r mwyngloddiau gau. Defnyddiwyd pympiau aneffeithiol oedd yn cael eu gyrru gan ddŵr, ac wedyn peiriannau stem oedd yn defnyddio glo, ond nid oedd y naill na'r llall yn ateb y broblem. Buddsoddodd perchnogion Rhual lawer o arian mewn peiriannau trawst Cernyw ar gyfer eu mwyngloddiau, ond ni chafwyd elw o'u buddsoddiad.


Ateb gwell i'r broblem oedd cloddio twneli draenio hir oedd yn mynd â'r dŵr o bob gwythïen roedden nhw'n ei chroesi. Yn y flwyddyn 1875 gyrrwyd Twnnel Helygain 60metr uwchben lefel y môr am 5 milltir. Daeth i ben i'r gogledd o Bantymwyn. Llwyddodd i adfywio'r mwyngloddiau lleol.

Yn 1897, dechreuodd y gwaith o yrru Twnnel y Milwr ar uchder lefel y môr tua'r de o bentref Bagillt gan ganiatáu cloddio'r gwythiennau oedd yn ddyfnach o lawer yn llwyddiannus. Roedd pris plwm yn mynd i fyny ac i lawr yn arw, gan olygu bod rhaid atal y gwaith twnelu nifer o weithiau. Yn 1938, fe gyrhaeddodd y twnnel wythïen Pantymwyn ond daeth y gwaith i ben pan syrthiodd y prisiau ac fe gollodd y rhan fwyaf o'r gweithwyr eu gwaith. Dechreuodd y twnnel unwaith eto yn 1948 pan gododd pris plwm gan fynd yn ei flaen o dan yr Hand yng Ngwernaffield. Ychydig ymhellach i'r de fe ddarganfuwyd gwythïen newydd a gafodd ei chloddio'n llwyddiannus am ddeg mlynedd eto. Aeth y gwaith twnelu yn ei flaen gan gyrraedd Cadole yn 1958. Aeth y prisiau i lawr a chodi eto yn 1964, gan wneud cloddio dwfn ar hyd y gwythiennau mwyaf deheuol yn ymarferol. Bu gwythïen Pantybuarth yn dal i gael ei gweithio ar raddfa lai i saithdegau'r 20fed ganrif, a hi oedd y wythïen blwm olaf yng Nghymru i gael ei gweithio.

*Noder – Mae'r rhan fwyaf o'r siafftiau wedi cael eu llenwi neu eu cau, ond mae rhai yn dal yn dyllau gyda ffens o'u cwmpas. Dylid cymryd gofal mawr wrth y safleoedd hyn am eu bod yn gallu bod yn ansad dros ben.*



*Mwynwyr yn Nhwnnel y Milwr*



# Chwarela

Roedd calchfaen yn cael ei ddefnyddio yn gyffredinol i adeiladu, i godi waliau cerrig, yn ffiniau caeau ac yn y rhan fwyaf o hen dai. Ar fap 1871 ceir nifer o chwareli bychain a rhai mawr yn Chwarel Pandy y tu isaf i Ben-y-fron, ac ym Mhantybuarth.



*Yr Odyn Calch cyn adeiladu Kiln Lodge.*

Roedd y calchfaen yn cael ei falu a'i losgi mewn odynnau calch er mwyn gwneud gwrtaith i dir asid a morter adeiladu. Ar yr hen fapiau gwelir nifer o odynnau yn yr ardal, y rhan fwyaf yn ymyl chwarel. Mae nifer o'r odynnau hyn yn dal i fod. Adeiladwyd Kiln Lodge ar Ffordd Pantymwyn ar ben hen odyn!

*Roedd haenau o galchfaen a thanwydd - golosg yn y dechrau ac wedyn glo o ansawdd isel - yn cael eu bwydo i'r odyn o'r tu uchaf i wely o brysgwydd. Byddai'n cael ei gynnau o'r ochr isaf drwy dyllau cynnau. Ar ôl y llosgi, byddai'r calch a'r lludw yn cael ei dynnu o'r grât drwy dwnnel bwa oedd ar ochr yr odyn.*





Roedd sachau o gerrig o Chwarel Sbar Pensarn yn cael eu tynnu i fyny'r lôn serth gan bwlïau ac yna'n cael eu llwytho ar y wagen wrth y giât ar Ffordd Cefn Bychan.






*Chwarel Sbar Pensarn tua 1920au*

Y chwarel fwyaf yw chwarel calchfaen Cefn Mawr sydd rhwng y Waun a Cadole. Agorodd ar ôl yr Ail Ryfel Byd i ddarparu calchfaen ar gyfer y gwaith sment mawr yn Padeswood ac mae'n dal i weithio hyd heddiw.


Yn y Waun, mae'r calchfaen yn dipio o dan y tywodfaen. Yn union i'r gogledd o eglwys y Waun crëwyd Cloddfa Silica Rhug yn y creigiau tywodfaen hyn, ac roedd tywod silica a gro yn cael eu tynnu o siamberi tanddaearol. Nodir y chwarel ar fap 1871, parhaodd i weithio tan y 1960au. Ers hynny, cafodd stad o dai ei chodi dros y fynedfa i'r chwarel. Tynnwyd gro o'r ddaear yn Rhual rhwng 1930 a 1954. Yn y blynyddoedd cynnar roedd y rhan fwyaf yn cael ei yrru i Lerpwl i adeiladu'r twnnel ffordd cyntaf o dan yr Afon Merswy.






# Trin y Tir

O'i gymharu ag anwadalwch gwneud ffortiwn drwy gloddio am blwm, roedd y tir ar yr wyneb bob amser yn cael ei ffermio, ac mae'n dal i gael ei ffermio hyd heddiw. Tyfwyd ŷd, tatws, glaswellt a nifer o gnydau eraill yn y pridd cleiog ar y tir isel. Roedd y tir calchfaen, tenau ar y tir uchel yn llai ffrwythlon ac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pori.



*Will Goodwin gyda'i gi defaid a ddaeth i'r brig mewn cystadlaethau.*



*Pant-y-graig*



*Ffordd Hir, y Waun*

Yn aml iawn, roedd tyddyn gan y mwynwyr, ac roedd mwynwyr eraill yn helpu ar y ffermydd lleol i ychwanegu at gyflog afreolaidd eu gwaith yn y mwyngloddiau. Yn ôl llyfrau cyfrifon Bryn yr Onnen, roedd nifer o'r mwynwyr yn talu ychydig o bres i'r fferm am gael plannu ychydig o resi o datws. Hefyd, byddai'r rhan fwyaf o deuluoedd yn cadw darn o dir i dyfu llysiau.

Roedd y rhan fwyaf o'r tirddaliadau yn rhai bach - tua dwy erw neu dair. Er enghraifft, roedd Thomas Jones yn ffermio wyth o gaeau ym



*Gwartheg godro yn Rhual*





Mhant-y-graig, Pantymwyn, o 1888 ac yn tyfu cnydau a chadw ychydig o ddefaid, ieir, buwch, a dau fochyn at ddefnydd y teulu yn bennaf. Roedd hefyd yn 'lengthsman' oedd yn gyfrifol am gynnal a chadw ymyl y ffyrdd a'r ffosydd rhwng Pantymwyn a'r Waun, gan dorri glaswellt â chryman hir.

Ar ddechrau'r 20fed ganrif roedd y rhan fwyaf o waith ar y fferm yn cael ei wneud drwy nerth braich, gyda cheffylau i dynnu peiriannau. Roedd angen llawer o ddwylo ar adegau prysur y flwyddyn fel cynhaeaf gwair, ac ŷd, a chneifio, ac roedd cymdogion yn arfer â chynorthwyo'i gilydd.



Roedd stadau mawr Rhual, Hafod, a Gwysannau yn berchen llawer o dir o gwmpas y Waun. Mae Rhual, tŷ hynaf y plwyf, yn dyddio o 1634, ac mae fferm y stad sy'n bum can erw yn dal i ffynnu. Yn 1964 fe unwyd y pump o ffermydd bychain oedd ar y stad i greu'r fferm fawr hon sydd â 300 o wartheg godro erbyn hyn.



*Rhual*

# Capel ac Eglwys



Pulpud capel Llyn-y-pandy

Nid oedd unrhyw le addoliad yn y Waun na Phantymwyn tan ddiwedd y 18fed ganrif. Wrth i'r ddau bentref dyfu fe gynyddodd y galw am leoedd o addoliad. Roedd pregethwyr teithiol yn denu cynulleidfaoedd mawr ac Anghydffurfiaeth yn ennill tir ymhlith y gymuned o fwyngloddwyr. I ddechrau, byddai pobl grefyddol yn cyfarfod i addoli yn nhai ei gilydd ond wrth i'r niferoedd gynyddu roedd angen lleoedd mwy. Defnyddiwyd gweithdy'r saer ym Mhen-y-fron ar gyfer gwasanaethau nes casglu digon o arian yn 1798 i godi capel Presbyteraidd ac ysgoldy yn Llyn-y-pandy. Erbyn diwedd yr 19eg ganrif roedd nifer o gapeli o enwadau gwahanol yn ffynnu gan gynnwys dau gapel ym Mhantymwyn, un yng Ngwernaffield, ac un ym Mhantybuarth, yn ogystal â chapel Llyn-y-pandy. Mae capel Bethel y Waun yn dal yn gryf hyd heddiw.



Capel y Waun

Y tîm fu'n adnewyddu capel Pen-y-fron



Adeiladwyd capel Pen-y-fron yn 1825 ond erbyn y 1960au, fel llawer o gapeli eraill, roedd nifer fawr o aelodau wedi'u colli. Erbyn 1991 roedd y capel yn wag ac yn adfeiliedig. Aeth aelodau pedwar teulu, eu perthnasau'n aelodau ffyddlon yr achos mewn cenhedlaeth a fu, ati i ailadeiladu'r capel ei hunain. Erbyn hyn mae'r capel yn addoldy unwaith eto ac yn cynnal gwasanaeth yn rheolaidd bob mis.




Capel Pen-y-fron cyn ei adnewyddu

Roedd perchnogion Rhual ar ddiwedd y 17eg yn Fedyddwyr selog a bu pregethwyr teithiol yn derbyn croeso yma'n rheolaidd. Hwy a adeiladodd fedyddfa Rhual, sy'n cael ei llenwi â dŵr ffynnon naturiol, i gynnal gwasanaeth bedyddio drwy drochi. Caiff y fedyddfa ei defnyddio ambell waith; bu dau wasanaeth bedyddio yn ystod y blynyddoedd diweddar.

Eglwys y Drindod Sanctaidd gyntaf, y Waun




Adeiladwyd Eglwys y Drindod Sanctaidd, y Waun, yn 1838. Dywedodd yr Archddiacon Thomas ei bod yn "*very plain and without architectural features*", ond roedd gan y gymuned leol a fu'n rhan o'r cynllun adeiladu feddwl mawr ohoni. Cyfrannodd rhai tirfeddianwyr lleol arian mawr tuag at yr adeiladu; rhoddodd Miss Gifford, Plas Nercwys, dir ar gyfer yr ysgol gyffiniol, cyfrannodd Mold Mines wastraff mwyngloddio i'w ddefnyddio yn lle tywod, a bu nifer o bobl leol yn cario defnyddiau i safle'r eglwys am ddim.



Llosgwyd yr eglwys yn fwriadol yn 1860. Parhaodd i gael ei defnyddio am ychydig o flynyddoedd wedyn ond roedd yn anniogel a chafodd ei dymchwel yn y diwedd. Yn 1871 fe ddechreuodd y gwaith o ailadeiladu'r eglwys mewn arddull oedd yn llawer mwy gothig, ac ar Awst 24, 1872 cynhaliwyd gwasanaeth i ddathlu'r ailagor.

Mae'r eglwys yn parhau i fod yn rhan o'r gymuned leol hyd heddiw gan gynnal gwasanaethau'n rheolaidd, ac mae'r Brownies, Guides, Cubs a'r Sgowtiaid, Undeb y Mamau a chôr yr eglwys yn dal i ffynnu.



Eglwys y Drindod Sanctaidd, y

# Dyddiau Ysgol

Adeiladwyd yr ysgol gyntaf wrth ochr eglwys y Waun yn 1838. Adeilad cerrig, syml ag un ystafell fawr wedi'i rhannu'n ddwy ystafell oedd hi. Mae gan blant yr 1950au a'r 60au atgofion melys o dwymo o flaen y stof oedd ymhob ystafell ddosbarth. Neuadd y plwyf yw'r adeilad gwreiddiol heddiw ond mae'r hen gloch yn dal i grogi mewn tŵr bychan dros ddrws yr ysgol.

Deuai plant y ddau bentref a'r ffermydd o gwmpas i'r ysgol. Cerdded i'r ysgol oedd y drefn yr adeg honno – dipyn o bellter i blant Pantymwyn! Roedd presenoldeb y plant yn isel yn aml iawn oherwydd y tywydd, neu ar adeg cynhaeaf pan fyddai llawer o'r plant yn colli ysgol i helpu ar y ffermydd.

*"Dr Williams, the Medical Officer, ordered the school to be closed owing to an outbreak of scarlet fever in the village"*

Llyfr cofnod yr ysgol, Mehefin 15, 1898

Yr adeg honno roedd heintiau fel y pas, diptheria, a'r dwymyn goch yn gyffredin. Roedd hyn cyn dyddiau brechu ac roedden nhw'n afiechydon difrifol.

Bu perchnogion Rhual yn hael iawn i'r ysgol gan wahodd y plant i ddigwyddiadau yn y tŷ.

*"HRH Princess Royal visited Rhual. Children from school sang 'Ar Hyd Y Nos' and 'Llwyn Onn'. The Princess thanked them and complimented them on their singing. A half-day's holiday was granted in celebration of the event."*

Llyfr cofnod yr ysgol, Mai 29 1946



*Princess Mary, y Princess Royal, gyda'r Cadlywydd a Mrs Heaton yn Rhual, 1953.*



*John Walker, y faciwî, gyda'i ffrindiau yn Woodgate, Pantymwyn*

Yn 1939, ar ôl dechrau'r Ail Ryfel Byd, cynyddodd nifer y disgyblion yn arw pan gyrhaeddodd y faciwîs. Ar y pryd, roedd y dociau ar naill ochr a'r llall yr Afon Merswy yn darged i fomiau'r gelyn felly fe anfonwyd faciwîs o Wallasey, Bebington, a Birkenhead yn ogystal ag o ddinas Lerpwl.

Cafodd rhai plant anhawster ymgartrefu ac roedden nhw wedi mynd adre i lannau Merswy cyn y Nadolig am fod y bomio heb ddigwydd yn ôl y disgwyl. Ond ar ôl y bomio trwm yn y gwanwyn 1941, cododd niferoedd y faciwîs unwaith eto.

Roedd rhai plant yn mwynhau bywyd yn y wlad gymaint fel nad aethon nhw'n ôl i Lerpwl ar ôl y rhyfel. Daeth Doris Hughes yma gyda Butler Street School a dim ond am wyliau o dro i dro yr aeth yn ei hôl i Lerpwl. Priododd ŵr lleol a byw'n barhaol yn yr ardal. Daeth eraill yn ôl i fyw yn yr ardal yn ddiweddarach yn eu hoes.

Ar ôl y rhyfel, codwyd nifer o dai newydd yn y pentrefi ac aeth yr hen ysgol yn rhy fechan i ddelio â'r niferoedd o blant. Adeiladwyd ysgol newydd, Ysgol y Waen, a agorwyd yn ffurfiol yn 1973. Hon oedd yr ysgol gynradd gymunedol gyntaf i gael ei hadeiladu at y pwrpas yn Sir y Fflint. Lluniwyd mewn arddull cynllun agored ac mae'n cynnwys cangen o'r llyfrgell ac ystafell gymunedol.






*Della Matthias yn cyflwyno blodau i'r cynghorydd Liz Baker ar achlysur agor yr ysgol newydd.*

# Bywyd bob Dydd




Cyn i nifer fawr o bobl fod yn berchen ar geir, ychydig iawn oedd yn teithio ymhell o'u cartrefi. Cofia nifer o bobl mewn oed am fynd ar gefn eu ceffyl i'r Wyddgrug neu mewn ceffyl a throl. Ar ôl cychwyn gwasanaeth bysiau Crosville yn y 1920au, cafodd pobl leol fwy o gyfle i deithio ymhellach. Ar ddydd Mercher a dydd Sadwrn roedd y bysiau'n llawn o bobl yn mynd i farchnad yr Wyddgrug. Roedd bws gyda'r nos yn golygu bod pobl yn gallu mynd i sinema'r Savoy yn yr Wyddgrug, a'r rhai mwy anturus yn gallu mynd i gael profiad o ddinas Lerpwl o dro i dro.

Roedd y pentrefi yn fwy hunangynhaliol o lawer na heddiw, ac roedd siopau ymhob un oedd yn gallu ateb pob galw. Nid ar chwarae bach nag ar frys yr aed i brynu yn y siop, byddai'n gyfle i gyfarfod â ffrindiau ac yn achlysur cymdeithasol i gyfnewid newyddion y pentref.



*Gynt yn Pensarn Stores, Pantymwyn*





*Bu'r teulu Shawcross o Mount Pleasant Farm, y Waun, yn dosbarthu llefrith o gwmpas y pentref ers y 1930au.*



*Siop Pantymwyn (Swyddfa'r Post yn ddiweddarach), ar ddechrau'r 1900au.*

Rhwng y rhyfeloedd, Mr a Mrs Ledsham oedd yn rhedeg siop y pentref oedd ar y briffordd yn ymyl yr eglwys. Erbyn hyn tŷ preifat ydy'r siop ond mae'r ffenestri mawr yn dal yr un fath. Disgrifir The Bwlch Stores, rhwng y Waun a Phantymwyn, yn 'Ogof Aladdin'. Yma, roedd cwsmeriaid yn gallu prynu bron bopeth - o gig moch wedi'i dorri a menyn a ddillad, i deganau a phensiliau. Roedd modd archebu paent a phapur wal hefyd.

Pedair siop oedd ym Mhantymwyn. Y siop ar y gornel rhwng Pen-y-fron a Ffordd Cilcain oedd un o'r siopau cyffredinol cyntaf. Y Teulu Rich, ffermwyr lleol a'i prynodd yn 1898. Gallwch weld y drws ar y llawr cyntaf lle roedd y sachau o flawd a nwyddau eraill yn cael eu codi. Yn ddiweddarach adeiladodd y perchnogion y siop bresennol, ac yn 1935, cawsant drwydded i redeg Swyddfa Bost y pentref o'r siop.

Mae gan breswylwyr hynaf y pentref atgofion melys o'r siop fach i lawr ym Mhen-y-fron, ac o siop Pensarn oedd wrth y terminws bysiau ym Mhantymwyn, siop enwog am ei bara cartref a'i phasteiod.



*Maes Llan, yn ymyl yr Hand yng Ngwernaffield – gynt yn siop y cigydd.*

# Mwynhau peint

Ydafarn oedd un o ganolfannau'r pentref. Doedd fawr o elw yn dod ohoni ac felly'r gwragedd oedd yn rhedeg y dafarn a'r dynion yn gweithio fel ffermwyr neu fwynwyr i gael dau ben llinyn ynghyd.



Y tu allan i hen Dafarn y Crown



Y Teulu Goodwin a'u ffrindiau



Crown Inn newydd

Eiddo Holywell Brewers oedd Tafarn y Crown, Pantymwyn, yn wreiddiol. Yn 1903, daeth Edward a Selina Goodwin yn denantiaid a phrynu'r dafarn gan y bragdy yn ystod y 1920au. Erbyn 1931 roedd angen adnewyddu'r dafarn yn ddirfawr, a gan nad oedd codi tafarn newydd sbon fawr mwy costus, adeiladwyd Tafarn y Crown newydd dros y ffordd. Roedd yn lle bywiog dros ben, ceid canu o gwmpas y piano ac roedd yn lle yn boblogaidd iawn gyda'r bobl leol a'r ymwelwyr fel ei gilydd.

Roedd dwy dafarn yng Ngwernaffield tan yn ddiweddar. Yr Hand ar y groesffordd a'r Miners Arms i lawr y ffordd. Yn ôl y sôn, roedd y chwarelwyr a'r mwynwyr yn torri'u syched yn y Miners Arms, oedd yn wreiddiol yn dŷ talu'r cloddfeydd lleol, a'r Hand oedd tafarn y gweision fferm. Byddai'r cwsmeriaid yn dod a'u jariau i'w llenwi â chwrw i'w yfed gartref.



Y tu mewn i Dafarn y Crown newydd



Y tu allan i'r Hand 1957







Ar ôl cau chwarel Cae Rhug aeth nifer y cwsmeriaid i lawr ac nid oedd modd cynnal dwy dafarn. Caeodd y Miners yn 2007 ac mae'n dŷ preifat erbyn hyn, ond mae'r Hand yn dal yn dafarn groesawgar (ffoniwch 01352 740581 am oriau agor)



Miners Arms



# Yr Ysbryd Cymunedol

Bu'r bobl leol yn cydweithio'n aml i ymgyrchu, codi arian ac i weithio ar gynlluniau oedd o les i'r gymuned.



*Gwirfoddolwyr yn cloddio sylfeini ar gyfer Neuadd Bentref Pantymwyn.*

Roedd Neuadd Pentref Pantymwyn yn gynllun gwirioneddol gymunedol. Roedd y pentref yn tyfu'n raddol ac arno angen ei neuadd ei hunan. Codwyd arian drwy gasglu yn y pentref, ac yn 1948 daeth grŵp o bobl leol o hyd i hen gwt y fyddin yng Nghanolbarth Lloegr, a'i gludo i Bantymwyn. Gosododd gwirfoddolwyr lleol y sylfeini a chodi'r cwt ar dir a roddodd y teulu Goodwin, landlordiaid Tafarn y Goron.

Roedd y plant wrth eu bodd pan agorwyd meysydd chwarae y Waun yn 1959 ar ôl blynyddoedd o godi arian ac ymgyrchu ar ran y pentrefwyr.



*Agoriad Swyddogol Meysydd Chwarae y Waun*

Wrth i'r cymunedau dyfu, fe ffurfiwyd clybiau a grwpiau lleol oedd â rhywbeth at ddant pob oed. Ymunodd pobl ifanc â'r Brownies, Guides, Cubs a'r Sgowtiaid. Roedd y Brownies mor boblogaidd fel yn 1970, rhannodd yn ddau bac. Hyd heddiw, mae yma baciau Brownie a Chybs brwd.

Ffurfiwyd Undeb y Mamau y Waun yn 1920, a ffurfiwyd Sefydliad y Merched (WI), yn 1952. Roedden nhw'n cyfarfod nid yn unig ar gyfer achlysuron cymdeithasol ond i wneud lles i'r gymuned hefyd. Darparodd y WI glinig bwyd babanod i famau ifanc ac yn ddiweddarach rhoesant arian i ffurfio grŵp chwarae.



*Brownies y Waun, 1963*

Ffynnodd Clwb Pêl-droed y Waun cyn yr Ail Ryfel Byd gan chwarae gemau caled yn erbyn timoedd lleol eraill. Chwaraewyd y gemau cartref yn Fferm Mount Pleasant, a gelwir y cae yn 'y cae pêl-droed' hyd heddiw.



*Tîm Pêl-droed y Waun, 1930au neu 40au.*

*"The members of the y Waun and Colomendy Church Sunday Schools, headed by the Gwernaffield brassband, under the leadership of Mr J. Clarke, marched to Rhual for their annual treat ".*
Dyfyniad o The County Herald, 28 Gorffennaf 1899



*Ymweliad yr Ysgol Sul â Rhual, tua 1900*

**Band Arian y Waun**

Bu'r band yn bodoli am dros gan mlynedd, gan arwain gorymdeithiau drwy'r pentref a chwarae mewn gwasanaethau eglwys, cyngherddau, partis gardd, carnifalau yn y ddau bentref. Ar ddechrau'r 1900au, sonnir am y band yn aml yn y wasg, gan adlewyrchu pa mor bwysig oedd eu cyfraniad i fywyd y pentref. Mae'r band yn dal i ffynnu heddiw, yn chwarae nifer o fathau gwahanol o gerddoriaeth gan gynnwys gorymdeithiau traddodiadol bandiau pres. Mae'n un o'r ychydig o fandiau gorymdeithiau sy'n dal i fodoli. Ceir galw mawr ar eu hamser i arwain gorymdeithiau mewn ardal ehangach, ac mae'n fand sy'n cystadlu. Mae croeso cynnes i aelodau newydd bob amser. Ffoniwch Martin Bishop ar 01352 740900 i gael gwybod mwy.



*Band Arian yn gorymdeithio, Gorffennaf 2009*

# Gwyliau

Dros y blynyddoedd fe ddathlwyd digwyddiadau cenedlaethol a lleol yn frwd. Mae'r achlysuron yn amrywio o goelcerthi i bartïon strydoedd i ddathlu diwedd Rhyfel Byd II, y Coroni, a Jiwbilî'r Frenhines; i ddathliadau mwy lleol fel agor y meysydd chwarae, yr ysgol newydd neu neuadd y pentref.


Mona Williams yn ennill yn y gystadleuaeth addurno beiciau


The Donkey Derby

Edrychwyd ymlaen yn frwd at y Carnifal Blynyddol, gyda'i gorymdaith, Brenhines y Carnifal, cystadleuaeth gwisg ffansi, chwaraeon, stondinau a sioeau ymylol.

Am nifer o flynyddoedd bu CRhA Ysgol y Waen yn trefnu'r Donkey Derby poblogaidd. Gŵr gwadd yr achlysur cyntaf yn 1975, a gyrhaeddodd mewn hofrennydd, oedd Kevin Keegan, peldroediwr Clwb Pêl-droed Lerpwl a Lloegr.


Kevin Keegan yn cyrraedd i agor y ffair


Ci Hufenfa Mount Pleasant yn cystadlu


Rasys Pramiau


Tug-o'-war

Mae'r sioeau a'r carnifalau wedi newid yn nhreigl amser. Nid oes unrhyw orymdeithio ar y briffordd oherwydd y traffig cyfoes, ond mae'r ysbryd cymunedol yn dal mor gryf ag erioed, a sioe a Gymkhana Pantymwyn mor boblogaidd ag erioed ym mis Awst.

Ym Mhantymwyn ceir cwrs golff sydd â golygfeydd arbennig tua'r gorllewin i Fryniau Clwyd, i'r gogledd tuag Aber yr Afon Dyfrdwy a Glannau Merwy ac i'r dwyrain tua Gwastadeddau Sir Gaer. Symudodd Clwb Golff yr Wyddgrug o Padeswood i Bantymwyn yn 1928, gan adeiladu cwrs naw twll a thŷ clwb ar dir fferm. Ymestynnwyd y cwrs golff i greu 18 o dyllau a pharhaodd y clwb i ffynnu, gan ddathlu pen-blwydd yn gant oed yn 2009. Estynnir croeso i ymwelwyr sy'n archebu o flaen llaw. Ffoniwch 01352 741513 i gael gwybod mwy.




Golygfa Moel Famau o'r Cwrs Golff


Dawns Ysgol Ramadeg yr Wyddgrug yn Neuadd Pentref Pantymwyn

# Ymwelwyr am y dydd

Gwerthfawrogodd y bobl leol harddwch yr Afon Alun erioed gan fwynhau ei harchwilio ar hyd y llwybrau, gan gynnwys y Llwybr Lît enwog sy'n dilyn trywydd y cwrs dŵr gynt a gloddiwyd i ddarparu dŵr ar gyfer peiriannau'r gwaith. Mae llawer o'r trigolion hŷn yn cofio'r rhyddid gawsant pan roedden nhw'n blant - yn cael chwarae yn y coed a'r afon a mynd i mewn i geg yr ogofeydd.





Ar ddiwedd y 19eg ganrif fe drodd yr ardal yn gyrchfan twristiaid hefyd.

Pan agorodd y lein o'r Wyddgrug i Ddinbych yn 1869, cafwyd cysylltiad ag ardal Pantymwyn drwy orsaf Rhydymwyn. Daeth nifer o ymwelwyr am y dydd, yn arbennig cerddwyr a phobl ar wyliau o Sir Gaer a Glannau Merswy. Pan gychwynnodd y gwasanaeth Crosville o Birkenhead i Bantymwyn a Loggerheads yn y 1920au, roedd yr ardal yn fwy hygyrch fyth i ymwelwyr.



Caffi Tan-y-graig ar lwybr y Lît

Sylweddolodd y bobl leol fod pres i'w wneud drwy ddarparu cyfleusterau i'r nifer cynyddol o dwristiaid. Agorodd nifer o gaffis, gan gynnwys Windmill Café oedd gyferbyn â'r terminws bysiau ym Mhantymwyn; caffi Miss Reason yn un o'r cytiau pren yng nghoed Cefn Bychan, a chaffi ar hyd y Lît ble mae Alyn Kennels yn sefyll heddiw.




Gorsaf Rhydymwyn






Mr Rich ym Mharc Carafannau Coed Mawr





Rhoddodd nifer o ffermwyr ganiatâd i ymwelwyr wersylla yn eu caeau, ac yn y 1930au adeiladwyd clwstwr o gytiau gwyliau ar Fferm Coed Mawr, Pantymwyn. Yn raddol, daeth carafannau yn eu lle, ac ymhen amser datblygodd i fod y parc carafannau sydd yma heddiw. O Lannau Merswy y daw'r mwyafrif o berchnogion y carafannau a nifer o genedlaethau o'r un teulu yn dod yn ôl flwyddyn ar ôl blwyddyn. Codwyd hen gerbydau rheilffordd a chytiau pren yn anffurfiol yng nghoed Cefn Bychan hefyd.



*"I remember idyllic holidays spent with my mum, dad and younger brother around Pantymwyn. Sometimes we would camp on a farm, bringing our bell tent and equipment with us on the bus, and later rented an old railway carriage in Cefn Bychan Woods. I remember the sing-songs in the Crown Inn while we waited for the last bus back to Birkenhead."* Derek Parsons

# *Dan eich traed!*

Yn ddwfn o dan bentref Pantymwyn mae nifer anhygoel o ogofeydd a thwneli cymhleth yn gorwedd. Mwynwyr a gloddiodd y twneli, ond mae'r ogofeydd yn rhai naturiol a grëwyd dros filiynau o flynyddoedd gan ddŵr yn llifo o dan y ddaear drwy'r garreg galch. Ogof Hesb Alun yw'r system ogofeydd hiraf y gwyddys amdani yn Sir y Fflint. Mae'n 263 o droedfeddi o ddyfnder ac yn 1.3 o filltiroedd o hyd. Efallai bod y gair 'Hesb' yn yr enw yn cyfeirio at y ffaith bod yr Afon Alun yn sychu yn yr haf heb fod ymhell o'r ogof hon. Gerbron, mae dwy ogof arall sef Ogof Hen Ffynhonnau ac Ogof Nadolig.



Carreg sy'n meddalu'n araf o dan ddylanwad dŵr yw calchfaen, mae'r hafnau bach yn tyfu'n dyllau mwy. Ar wely'r afon, diflanna'r dŵr i lawr y tyllau hyn ac yn yr haf pan fydd llif y dŵr yn isel mae'r afon i'w gweld yn hollol sych. O dro i dro, gellir clywed sŵn y dŵr yn llifo o dan y ddaear.

Pan feiriolodd yr haen o iâ oedd yn gorchuddio gogledd Cymru am tua 17,000 o flynyddoedd daeth llif anferth o ddŵr drwy Ddyffryn yr Alun.Diflannodd llawer o'r dŵr o dan y ddaear drwy dyllau gan ffurfio afonydd tanddaearol a feddalodd y graig a chreu cafnau yn y garreg galch. Disgynnodd lefelau'r dŵr yn raddol gan adael cyfres anferth o ogofeydd gyda stalagmidau a stalactitau.

Daw llawer o ogofäwr i'r ogofeydd hyn, ac weithiau gwelir pobl gyda helmed a rhaffau ac yn fwd o'u corun i'w sawdl wrth geg yr ogofeydd yn ymyl Trial Hill.

Cofiwch fod ogofeydd yn lleoedd peryglus iawn. Ni ddylai unrhyw un dibrofiad fentro i mewn iddyn nhw. I gael mwy o wybodaeth dylid ffonio North Wales Caving Club, ar: 01978 757305 neu Grosvenor Caving Club ar: 01829 759089







# Y Bywyd Gwyllt



*Tegeirian llydanwyrdd mwyaf*

Tirwedd arbennig am fywyd gwyllt yw Dyffryn yr Afon Alun, ceir yma gymysgedd o laswelltir calchfaen agored, llwyni, coedwigoedd aeddfed ac afon. Saif o fewn Ardal o Harddwch Arbennig Eithriadol Bryniau Clwyd, sy'n un o bump yn unig o ardaloedd arbennig o'r fath yng Nghymru.

Ffynna'r blodau gwyllt ar y pridd calchog, tenau yn ardal y **Saith Camfa**, Pantymwyn, a elwir yn **'Dolydd Pantymwyn'** hefyd, rhwng Ffordd Cilcain a ffordd Pen-y-fron. Ar ddiwedd y gwanwyn ac yn yr haf mae'r glaswellt yn frith o *friallu Mair, pysen y ceirw, briwydden felen, tamaid y cythraul, pengaled, cribau San Ffraid a gruw gwyllt persawrus*. Ffynna'r *tegeirianau* yma hefyd. Y rhai cyntaf i flodeuo o fis Mai ymlaen yw'r *tegeirian coch*, yna daw cyfoeth o flodau pinc *y tegeirian mannog* o Fehefin ymlaen. Efallai yr aroglwch y *tegeirian pêr* a gweld y tegeiriannau llai cyffredin fel *tegeirian llydanwyrdd a thegeirian y waun*.



*Tegeirian coch*

Caiff pryfed amrywiol gysgod a bwyd yn y blodau a'r glaswellt toreithiog, mae yma neithior i'r gloÿnnod byw a dail i'r lindys. Cofnodwyd ugain o loÿnnod byw gwahanol yma. Mae'r *gwrmyn y ddol* a'r *porthor* yn gyffredin iawn a gwelir y *gwibiwr llwyd* prin a lindys sy'n bwydo ar *bysen y ceirw* hefyd.







*Coch y berllan*



*y gwibiwr mawr*

Ychwanega'r llwyni bach a choed, sy'n cynnwys y *ddraenen ddu, y ddraenen wen*, a llwyni *eithin* yn bennaf, at ansawdd y bywyd gwyllt ar y safle gan roi lle i nythu ac i glwydo a ffynhonnell ychwanegol o fwyd i'r adar. Caiff yr adar sy'n bwyta hadau fel y llinosiaid eu denu i'r glaswelltir a'r llwyni, gan gynnwys coch y berllan -rhywogaeth sy'n prinhau drwy'r wlad- sy'n magu yma'n llwyddiannus.

Mae'r cwningod yn ferw yma a'r lleiniau o laswellt hir yn gartref i lygod y maes a llygod y dŵr. Yn gyffredin gwelir yr adar ysglyfaethus fel *bwncath, hebog, cudyll coch* a'r *gwalch glas* uwchben; a'r *mochyn daear* a'r *llwynogod* wrthi'n hela islaw.

Lleoedd gwerthfawr eraill i'r bywyd gwyllt yn y plwyf yw **Coed y Tŵr**, rhwng Ffordd Cefn Bychan a Chwrs Golff yr Wyddgrug, Coetir Cefn Mawr a'r ardal o lwyni, prysgwydd a glaswelltir calchfaen i'r gogledd orllewin o Chwarel Cefn Mawr.

Yn y dyffryn ceir nifer o adar ac anifeiliaid anghyffredin eraill. Daeth y dyfrgwn yn ôl i'r Afon Alun, bu *hebogau tramor* yn magu cywion yn y chwareli lleol a'r *ystlumod bedol leiaf* yn byw mewn ogofeydd a thwneli'r mwyngloddiau yn Nyffryn yr Afon Alun.



*Hebog tramor*

# Coed Dyffryn yr Alun



*Caldrist melynwyrdd*

Ymestynna Coed Dyffryn yr Alun o Loggerheads i Ryd-y-mwyn. Cawsant eu dynodi'n Ardal o Gadwraeth Arbennig am eu bod yn bwysig yn fyd eang. *Onnen* a *derwen* yw'r prif goed, a haen o lwyni *cyll* a *draenen wen* yn bennaf sydd o danodd. Yn y gwanwyn, mae llawr y goedwig yn frith o liwiau; *blodau'r gwynt* a *fioledau* i ddechrau, yna carped o *glychau'r gog* a'r *gruw gwyllt*. Mae yma blanhigion llai cyffredin hefyd, gan gynnwys *caldrist melynwyrdd*, *palf yr arth ddrewedig*, a *chlust yr ewig*. Un o'r rhai mwyaf anghyffredin yw *dantlys* - planhigyn lliw gwelw sy'n byw yn barasitig ar wreiddiau coed *ynn* a choed *cyll*.

Mae'r goedwig yn gynefin i nifer fawr o adar ac anifeiliaid. Nytha'r adar, a bydd ystlumod yn clwydo mewn tyllau a chafnau mewn hen goed. Mae infertebratau, gan gynnwys chwilod, larfae, nadroedd miltroed a moch coed, yn byw mewn coed marw a dail ar lawr. Yn eu tro mae'r rhain yn fwyd i adar fel cnocell y coed a thelor y cnau. Bydd y mamaliaid fel llygod, llygod y dŵr, moch daear, a llwynogod, yn elwa o'r bwyd a'r cysgod yn y goedlan. Mae llawer o ffwng yn byw ar goed marw ac yn ailgylchu'r maetholion yn ôl i bridd y goedlan.



*Clust yr ewig*

Yn y gwanwyn mae'r coed yn gyforiog o ganu adar ar ddechrau'u tymor nythu. Daw nifer o adar mudol fel y *gwybedog brith* a'r *gwybedog mannog*, *y siff-siaff* a *thelor yr helyg* sy'n cael eu denu gan y nifer fawr o bryfed.

*Telor y cnau*





*Dryw*

Yn yr haf, mae'r llennyrch yn y coed yn lleoedd da i weld gloÿnnod byw fel *brych y coed*.

FRIENDS OF ALYN VALLEY WOODS

**Cyfeillion Coed Dyffryn yr Alun**

Yn 2007, fe ffurfiodd rai pobl leol y grŵp hwn i gadw a gwella'r planhigion a'r anifeiliaid sydd yng Nghoed Dyffryn yr Alun a'r ddol gyfagos, er mwyn hyrwyddo'u gwerth cadwriaethol i'r bobl leol a gwella cysylltiad a cydweithrediad â'r tirfeddianwyr lleol.



*Dantlys*

Mae'r grŵp yn trefnu rhaglenni o ddigwyddiadau rheolaidd, gan gynnwys sgyrsiau, teithiau cerdded a thasgau cadwraeth ymarferol, fel codi blychau nythu gyda Brownies y Waun. Mae'r aelodau'n gwneud gwaith archwilio a monitro hefyd.

Un o'r tasgau parhaol mwyaf yw rheoli *balsam yr Himalaia* sy'n tyfu ar lannau'r afon. Dechreuodd y gwaith yn 2009. Fel yr awgryma'r enw, mae'r planhigyn tal â blodau pinc yn dod o ardal yr Himalaia. Cafodd ei gyflwyno i Brydain yn 1839. Ers hynny tyfodd yn broblem fawr am ei fod yn oresgynnol dros ben ac yn lledaenu'n gyflym ar hyd glannau'r afonydd lle mae'r dail trwchus yn mygu'r tyfiant naturiol. Yn ystod yr haf 2009 bu dros 100 o wirfoddolwyr, yn eu plith Sgowtiaid Trindod Famau, yn treulio 450 o oriau diflino'n tynnu'r planhigyn cyn iddo hadu. Mae angen mwy o help bob amser, felly beth am ddod draw i ddigwyddiad, dysgu mwy am yr amgylchedd arbennig sy ar garreg eich drws, a chyfarfod â phobl eraill? I gael gwybod mwy, ffoniwch Gill Dobson ar: 01352 741459 neu e-bostiwch : gilldobson@tiscali.co.uk

